# Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan
# Llanddoged and Maenan Community Council

DELYTH M. ALGIERI
Clerc

Ffôn (01492)642183

Bryn Dedwydd
Penrhiw,
Llanddoged.
Llanrwst.
LL26 0BZ

E.Bost clerk@llanddoged-maenan.org.uk

**************************************************************************************

12/03/2024

Annwyl Syr/Fadam,

Cynhelir cyfarfod yn **Ysgol Gynradd Llanddoged** , **Nos Lun 18fed, Mawrth, 2024** am **7.30** o'r gloch i ystyried y materion a ganlyn:-

- Ymddiheuriadau.
- Cadarnahu cofnodion o'r cyfarfod diwethaf 19eg Chwefror, 2024
- Materion yn codi o'r cofnodion
- Diweddariad -Ceisiadau Grant 'UKSPF' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac arwyddo y ddogfen cadarnhad derbyn arian y grant.
- Cynnal a Chadw
- Unrhyw Fater Arall

Yn gywir

Delyth Algieri(Clerc)

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 19,Chwefror 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM) (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Delyth Algieri (clerc).

Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO),

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Alun Morris(AM) , Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Dylan Jones(DJ), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 29ain Ionawr, 2024**

Cynnigwyd yn gywir gan ( ALJ) ac eilwyd gan (JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Dim mater yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4. **CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Eglurodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyr drwy e-bost gan y 'Cronfa Ffyniant Cyffredin y Du Conwy yn cadarnhau fod y Cyngor Cymuned yn gallu symud ymlaen gyda threfniadau ar gyfer:-

a) Ail-wynebu'r maes parcio Gegin Wen, Llanddoged.
b) Arwydd maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.
c) Bwrdd picnic ar gyfer Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

Y Clerc wedi galw i weld C T Roberts Ltd, Llanrwst i wneud trefniadau ar gyfer ail wynebu'r maes parcio Gegin Wen Llanddoged. Pasiwyd i ofyn iddynt gwblhau'r gwaith yn ystod gwyliau Pasg sef Dydd Llun 25ain o Fawrth. Bydd y clerc yn trefnu i osod arwydd ar giât y maes parcio i hysbysebu'r cyhoedd bydd y maes parcio ar gau o 24ain o Fawrth nes bydd y gwaith o ail-wynebu wedi cael ei gwblhau.

Pasiwyd i wneud trefniadau ar gyfer arwydd ar bwrdd picnic maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan ym mis Ebrill.

5**. CYNNAL A CHADW**

5.1 Angen tarmacio ambell i dyllau yn y ffordd o Blas Ednyfed hyd at Cae Brychiad, Ffordd Llanddoged.
5.2 Twll yn y ffordd wrth giât Chwarel ac wrth Ffrith Uchaf, Maenan.
5.3 Twll y ffordd rhwng Groesffordd a Phen y Bryn, Ffordd Allt Goch, Llanddoged.
5.4 Angen sweeper Ffordd Llanddoged o Pen Llan hyd at Cae Brychiad, Llanddoged.
5.5 Angen sweeper o Wifga hyd at Dŷ'r Ysgol, Maenan.

6. **UNRHYW FATER ARALL**

6.1 Derbyniwyd llythyr gan Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst gyda chais am y rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd a phasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau anfon £40 yn rhodd ariannol i'r Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst.

6.2. Nododd y clerc bydd y cyfarfod mis Mawrth yn cael ei gynnal wythnos yn gynt ar y 18fed o Fawrth oherwydd bydd yr ysgol ar gau diwedd y mis dros wylia Pasg